Eco-Tots Cymru

# Canllawiau Codi Sbwriel ar gyfer Ymarferwyr

## Amcanion dysgu

Bydd plant yn dechrau deall pam y mae'n bwysig gofalu am eu hamgylchedd a chadw mannau a rennir yn daclus.

Bydd plant yn datblygu sgiliau yn dilyn cyfarwyddiadau syml, gweithio gydag eraill a chymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp.

Bydd plant yn dysgu y gall gweithredoedd cadarnhaol bach helpu eu cymuned, bywyd gwyllt a mannau awyr agored.




cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Tîm Taclus

## Gwybodaeth ymarferydd

Mae sesiynau codi sbwriel y bwysig am eu bod yn helpu plant i wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng eu gweithredoedd a’r byd o’u cwmpas.

Gall cymryd rhan mewn tasg syml sy’n canolbwyntio ar y gymuned gefnogi dealltwriaeth gynnar o gyfrifoldeb, parch a gofal am ofod a rennir.

I ymarferwyr, mae codi sbwriel hefyd yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo dysgu awyr agored, cyfathrebu, cydweithredu a diogelwch personol mewn cyd-destun bywyd go iawn.

Gall annog plant i sylwi ar eu hamgylchedd, siarad am y ffordd mae sbwriel yn effeithio ar bobl a bywyd gwyllt, a phrofi ymdeimlad o gyflawniad helpu i wneud ardal yn lanach ac yn fwy diogel.

Mae offer codi sbwriel yn ddrud felly os nad oes rhai gennych yn eich lleoliad yn barod gallwch fenthyg offer am ddim o un o Hybiau Cadwch Gymru’n Daclus ledled Cymru. I ganfod ble mae eich Hyb agosaf ewch i https://keepwalestidy.cymru/cy/caru-cymru/hybiau-codi-sbwriel/

## Cynllunio sesiwn codi sbwriel yn eich lleoliad



Cyn y gweithgaredd, dylech gynnal asesiad risg a sicrhau bod y sesiwn yn addas i’r plant, y lleoliad a’r oedolion sydd ar gael i’w cefnogi. Bydd trefnu clir cyn dechrau yn helpu’r gweithgaredd i fynd yn ddidrafferth ac yn ddiogel.

Cyn dechrau, siaradwch â’r plant am y ffordd y gallan nhw gymryd rhan yn ddiogel. Cadwch y gweithgaredd yn syml, wedi ei oruchwylio’n dda ac yn briodol i’w hoed a chyfnod eu datblygiad. Mae’r pwyntiau ychwanegol ar y dudalen nesaf yn cynnig canllawiau manylach ar gyfer cynllunio gweithgareddau codi sbwriel yn y gymuned ehangach.

Dylai ymarferwyr hefyd gyfeirio at weithdrefnau perthnasol y lleoliad a chanllawiau iechyd a diogelwch ac asesu risg Cadwch Gymru’n Daclus Mae gweithgareddau codi sbwriel yn cynnwys risgiau, ond gellir lleihau’r rhain trwy gynllunio gofalus, goruchwyliaeth briodol a threfniadau diogelwch clir.

## Rhestr wirio ymarferwyr

### Cyn i chi ddechrau

Dewiswch leoliad addas a chytuno ar ffiniau clir.
Cynlluniwch weithgaredd pwrpasol,byr sy'n cyd-fynd ag oedran, cyfnod datblygiad a diddordebau'r plant.
Gwiriwch ragolygon y tywydd a sicrhau bod plant wedi gwisgo'n briodol.
Rhowch gyfarwyddyd i'r holl oedolion sydd yn gysylltiedig fel bod pawb yn deall eu rôl a'r gweithdrefnau diogelwch y cytunwyd arnynt.

### Ewch ag offer hanfodol gyda chi, yn cynnwys:

- Codwyr sbwriel sy'n addas i blant
- Bagiau sbwriel
- Pecyn cymorth cyntaf
- Ffôn symudol

### Yn ystod y gweithgaredd

- Esboniwch y gweithgaredd i'r plant gan ddefnyddio iaith syml, glir.
- Goruchwyliwch y plant yn agos bob amser.
- Anogwch y plant i ddefnyddio codwyr sbwriel yn hytrach na'u dwylo.
- Atgoffwch y plant i beidio cyffwrdd â'u hwynebau tra'n codi sbwriel.
- Dewch â'r gweithgaredd i ben os yw'r plant yn blino, ddim yn canolbwyntio neu wedi cynhyrfu.
- Gadewch unrhyw eitem na ellir ei gasglu'n ddiogel.

### Ar ôl y gweithgaredd

Gwaredwch y sbwriel sydd wedi cael ei gasglu yn briodol.
Gwnewch yn siŵr bod pawb yn golchi eu dwylo yn drwyadl.
Caniatewch amser i'r plant fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi dod o hyd iddo a dathlu eu cyfraniad.

### Ystyriaethau diogelwch allweddol

Oed a gallu.
Addaswch hyd, disgwyliadau a lefel y cymorth i gyd-fynd ag oedran, cyfnod datblygiad a hyder y plant.



Eco-Tots Cymru

## Hylendid

Mae arferion hylendid da yn helpu i leihau lledaeniad salwch. Dylai plant ac oedolion osgoi cyffwrdd â'u hwynebau yn ystod y gweithgaredd a golchi eu dwylo yn drwyadl ar ôl hynny, yn arbennig cyn bwyta neu yfed.

## Eitemau miniog a pheryglus

Ni ddylai plant godi nodwyddau, gwydr wedi torri, eitemau miniog neu sylweddau anhysbys. Os cânt eu darganfod, symudwch y plant i ffwrdd o'r ardal a dilynwch weithdrefnau adrodd lleol.

## Codi a chario

Peidiwch â gorlenwi bagiau sbwriel. Ni ddylai plant orlenwi bagiau sbwriel. Ni ddylai plant godi eitemau trwm, a dylid rhoi gwybod am eitemau mawr neu anniogel yn hytrach na'u symud.

## Planhigion, pryfed a gwastraff anifeiliaid

Ystyriwch unrhyw alergeddau hysbys wrth gynllunio'r gweithgaredd. Anogwch y plant i arsylw bywyd gwyllt a phlanhigion heb eu cyffwrwdd, ac osgoi cyswllt â gwastraff anifeiliaid.

## Tywydd ac amodau awyr agored

Adolygwch y tywydd ar y diwrnod ac addaswch y gweithgaredd fel bo angen. Mewn tywydd poeth, gall fod angen cysgod, diodydd ac eli haul, ond gallai amodau oer, gwlyb neu wyntog olygu y gallai fod angen byrhau neu ohirio'r sesiwn.

*Gall sesiwn codi sbwriel wedi ei gynllunio'n dda helpu plant i ddatblygu teimlad o gyfrifoldeb, o berthyn a gofal dros eu hamgylchedd. Bydd cadw'r gweithgaredd yn fyr, yn ddiogel ac yn bleserus yn helpu i sicrhau profiad cadarnhaol ac ystyrlon i bawb sy'n gysylltiedig.*

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Tîm Taclus